# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lynda James | **Adran Etholiadol:** | Pennard |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dd/b |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

**Materion etholaeth cyffredinol -** Ymdriniais â nifer o broblemau megis tyllau yn y ffordd, llyncdyllau, casgliadau sbwriel a llifogydd etc. Hefyd, darperais gyngor a chefnogaeth ar nifer o faterion unigol a throsglwyddo cyfeiriadau ar amrywiaeth eang o bynciau. Rwyf bob amser ar gael gartref, dros y ffôn neu drwy e-bost, a byddaf yn ymweld ag etholwyr yn eu cartrefi os yw'n fwy cyfleus iddynt.

**Cymorthfeydd misol** - Rydw i wedi cynnal cymhorthfa bob mis yn Llyfrgell Pennard ar ail ddydd Sadwrn pob mis rhwng 10.30am a 12.00pm.

**Cylchlythyrau –** Rwyf wedi llunio e-gylchlythyrau rheolaidd i'r holl etholwyr ar bynciau sy'n berthnasol i Ward Pennard ac yr wy'n credu y byddent o ddiddordeb.

**Cynllunio –** Adolygais yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer y ward ac ymwelais â'r rhan fwyaf o'r safleoedd. Trefnais i'r pwyllgor ystyried ceisiadau dadleuol a chysylltais â swyddogion gorfodi pan ystyriwyd bod angen.

**Cyngor Cymuned Pennard -** Rwyf wedi mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor cymuned a mynd i'r afael â materion a gododd yn y fforwm hwnnw. Fel aelod o'r cyngor cymuned rydw i wedi cymryd rhan arweiniol mewn nifer o brosiectau cymunedol.

**Gwarchod y Gymdogaeth -** Gweithiais yn agos gyda grwpiau gwarchod y gymdogaeth ym Mhennard a Kittle, yr heddlu a safonau masnach. Wedi mynd i'w cyfarfodydd yn rheolaidd a thrafod materion penodol megis gweithredoedd twyllodrus, goryrru, gwartheg crwydrol â'r bobl berthnasol.

**Digwyddiadau lleol** - Rydw i wedi cefnogi llawer o ddigwyddiadau lleol megis pen-blwydd Llyfrgell Pennard yn 50 oed, Arddangosfa Celf a Chrefft Pennard, Sioe Ardd Pennard.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

**Paneli craffu**
Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid
Panel Ymchwilio Tai Fforddiadwy
Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus
Panel Ymchwilio Strydlun
Gweithgor Cynllunio
Panel Ymchwilio Gofal Cymdeithasol yn y Cartref
Panel Craffu Llywodraethwyr Ysgol
Panel Perfformiad Ysgolion

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

**Llyfrgell Pennard**
Wedi parhau i drefnu cyfarfodydd cyhoeddus i frwydro yn erbyn cau Llyfrgell Pennard a chadw'r gwasanaeth ardderchog a arweinir gan lyfrgellwyr. Gweithiais gyda Chyfeillion Llyfrgell Pennard a Chyngor Abertawe i adnewyddu adeiladau presennol y llyfrgell a'i gwneud yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

**Materion cyhoeddus eraill**
Trefnwyd cyfarfodydd cyhoeddus amrywiol:-
1. Â Chyngor Cymuned Pennard i godi proffil y Cynllun Datblygu Lleol gan ei fod yn berthnasol i Bennard.
2. Hwyluso gwaith gwella ardal cylchfan Southgate.
3. Diogelwch ffyrdd a gosod croesfannau i gerddwyr yn Kittle a ger Ysgol Pennard.
4. Trefnu cyfyngiadau parcio mewn ardaloedd amrywiol o'r pentrefi er mwyn osgoi parcio ar balmentydd ac ar gyffyrdd.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Pleidleisiais ar yr holl faterion yn unol â'm cydwybod, gan gydbwyso anghenion etholwyr Pennard yn benodol ac Abertawe'n gyffredinol.
Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Pennard ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt.
Aelod o Gyngor Cymuned Pennard
Aelod o grŵp gwarchod cymdogaeth Pennard
Ymddiriedolwr Elusen Gymunedol Pennard
Aelod o Gyfeillion Llyfrgell Pennard
Aelod o bwyllgor Neuadd Blwyf Pennard
Aelod o bwyllgor Carnifal Pennard

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,400

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25/10/2018 |